

## Teitl y Swydd: Swyddog Prosiectau (Cymru)

### Pwrpas y Rôl

Bydd y Swyddog Prosiectau yn gweithio ar draws dau brosiect pwysig o fewn tîm Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac yn trefnu cyfarfodydd, llunio a chydlynu ystod o adnoddau ysgrifenedig a datblygu a chynnal digwyddiadau rhannu gwybodaeth.

### Yn y rôl hon, eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau yw:

- Darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Ymgysylltu Cenedlaethol i Ofalwyr, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd a chydlynu papurau cyfarfodydd, cefnogi aelodau'r grŵp i gymryd rhan a rheoli unrhyw waith papur perthnasol
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau ysgrifenedig, gan gynnwys llunio taflenni gwybodaeth, arweinyfrau, esboniadau cefndir ac adroddiadau byrion
- Hwyluso cyfarfodydd, hyfforddiant a digwyddiadau eraill i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr a ffyrdd effeithiol o adnabod a chefnogi gofalwyr di-dâl mewn lleoliadau gofal iechyd
- Cydlynu'r gwaith o ddylunio, cyfieithu a chyhoeddi adnoddau allweddol gan gynnwys llunio ac uwch lwytho gwe gynnwys
- Cefnogi ein gwaith gyda phartneriaid allanol i ddatblygu a rhannu'r hyn a ddysgir o gyfres o brosiectau peilot gan roi'r pwyslais ar gyd-gynhyrchu
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni cynlluniau prosiectau a monitro'r cynnydd wrth eu cyflawni

### I wneud y rôl hon, bydd gennych:

- Brofiad o reoli a chydlynu prosiectau cymhleth a'u cyflawni o fewn amserlenni pendant
- Hyder i weithio gyda phobl o bob math i gasglu eu barn a'u profiadau
- Profiad o ddatblygu rhwydwaith o weithwyr proffesiynol ac unigolion i gasglu gwybodaeth a phrofiadau a llunio allbynnau prosiectau
- Profiad o lunio ystod o adnoddau ysgrifenedig megis dogfennau esboniadol, adnoddau hyfforddiant, taflenni gwybodaeth, adroddiadau ac esboniadau cefndir
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol a'r gallu i ddadansoddi a chyfathrebu gwybodaeth gymhleth mewn ffordd ddealladwy
- Y gallu i ddeall a chyfleu materion cymhleth mewn ffyrdd diddorol sy'n briodol i amrywiaeth o fudd-ddeiliaid gan gynnwys trefnu a chynnal sesiynau, cyfarfodydd a digwyddiadau rhannu gwybodaeth
- Sgiliau trefnu rhagorol a'r gallu i gynllunio a blaenoriaethu'ch llwyth gwaith eich hun fel rhan o dîm prysur a chreadigol

- Sylw rhagorol i fanwl gywirdeb a manyldeb
- Mae'r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y rôl hon
- Gwybodaeth weithiol o'r cyd-destun polisi, systemau a strwythurau datganoledig yng Nghymru, yn enwedig felly ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg

**Yn y rôl hon, byddwch yn gweithio gyda phobl a thimau gwahanol:**

Byddwch yn gweithio yn rhan o dîm Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac yn atebol i ac yn cael eich cefnogi gan Bennaeth Materion Allanol Cymru

- Byddwch yn gweithio ac yn rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr ar draws tîm yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr ledled gwledydd Prydain
- Byddwch yn gweithio yn rhan o dimau prosiect sy'n cynnwys partneriaid allanol
- Byddwch yn gweithio yn uniongyrchol gyda gofalwyr di-dâl

**Yn y rôl hon, byddwch yn:**

- Datblygu a chyflawni cynlluniau gwaith a phrosiect clir sy'n integreiddio'n dda gyda chynlluniau prosiect a thîm ehangach
- Cydlynu'n ddidrafferth o leiaf 3 chyfarfod cenedlaethol o'r Grŵp Ymgysylltu bob blwyddyn
- Trefnu a chynnal digwyddiadau ymgysylltu a chyfleoedd i ofalwyr rannu eu barn fel rhan o waith y Grŵp Ymgysylltu
- Llunio a chyhoeddi adnoddau ysgrifenedig deinamig i gefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i allu adnabod, cefnogi a chyfeirio gofalwyr di-dâl yn well
- Trefnu a chynnal sesiynau rhannu gwybodaeth, cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddiant i rannu adnoddau a dysgu gyda nifer o weithwyr proffesiynol gwahanol
- Cynnal yn ddidrafferth gyfres o sesiynau peilot, a gyflwynir mewn partneriaeth â hwylusydd allanol, a chreu adnoddau ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgir trwy'r sesiynau peilot gydag ystod eang o fudd-ddeiliaid

<b>Cyfarwyddiaeth: Materion Allanol</b>	<b>Tîm: Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru</b>
<b>Yn atebol i: Kate Cabbage, Pennaeth Materion Allanol (Cymru)</b>	<b>Lleoliad: Caerdydd (Gweithio gartref ar hyn o bryd)</b>

<b>0.8 FTE</b>	<b>£26,789 pro rata</b>	
<b>Nifer yr Adroddiadau Uniongyrchol: 0</b>	<b>Lefel y Swydd:</b>  <b><u>At ddefnydd Adnoddau Dynol yn unig</u></b>	<b>Rhif Cyf y Swydd:</b>  <b><u>At ddefnydd Adnoddau Dynol yn unig</u></b>

### **Y dangosyddion gwerthoedd a ddisgwylir yn y rôl hon yw...**

Fel staff yr Ymddiriedolaeth Gofalwr y gellir **YMDDIRIED YNOM**, rydym:

- **Yn Weithwyr Tîm** – cefnogi ein gilydd tuag at nod cyffredin.
- **Yn Ymatebol** – rhoi ein hunain yn esgidiau pobl eraill ac ymateb i'w hanghenion.
- **Un Unedig** – gweithio fel un mudiad sy'n wynebu heriau gyda'n gilydd.
- **Yn Gefnogol** – galluogi ein gilydd i wneud ein gwaith yn dda.
- **Yn Dryloyw** – bod yn onest ac yn agored â'n gilydd.
- **Yn Fentrus** – bod yn feiddgar, rhagweithiol ac esblygol.
- **Yn Amrywiol** – deall a dathlu'r pethau gwahanol y mae pob un ohonom ni'n eu cynnig i'r Ymddiriedolaeth Gofalwr

### **Diogelu**

Mae'r Ymddiriedolaeth Gofalwr wedi ymrwymo i ddiogelu llesiant holl ddefnyddwyr ein gwasanaethau, gweithwyr a gwirfoddolwyr sy'n rhan o'n gwaith neu sy'n cael eu heffeithio ganddo. Mae gan bob plentyn ac oedolyn, waeth beth yw eu hoed, anabledd, rhywedd, treftadaeth hil, cred grefyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth yr hawl i gael amddiffyniad cyfartal rhag unrhyw fath o niwed neu gamdriniaeth a'r hawl i gael eu trin gyda pharch ac urddas. Mae gan bob gweithiwr a gwirfoddolydd ddyletswydd i rwystro plant ac oedolion rhag cael eu cam-drin ac i roi gwybod i'r person perthnasol am unrhyw bryderon diogelu.